



**10.00yb, Dydd Mawrth 12 Gorffennaf 2022**  
**Cyfarfod Rhithwir**

### COFNODION

#### **Yn bresennol**

| <b>Enw</b>                                   | <b>Corff/mudiad</b>                                |
|----------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| Barry Liles (Deilydd y Gadair)               | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant                |
| Y Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd newydd) | Cyngor Sir Caerfyrddin                             |
| Noelwyn Daniel                               | Cyngor Sir Caerfyrddin                             |
| Huwel Manley                                 | Cyfoeth Naturiol Cymru                             |
| Yr Uwch-arolygydd Clark Jones-John           | Heddlu Dyfed Powys                                 |
| Mydrian Harries                              | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Gorllewin Cymru |
| Mark Bowling                                 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda                   |
| Jo McCarthy                                  | Iechyd Cyhoeddus Cymru                             |
| Dr Michael Thomas                            | Iechyd Cyhoeddus Cymru                             |
| Carys Morgans                                | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd            |
| Wyn Morris                                   | Adran Gwaith a Phensiynau                          |
| Marie Mitchell                               | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |

#### **Hefyd yn bresennol**

| <b>Enw</b>         | <b>Corff/mudiad</b>                                  |
|--------------------|------------------------------------------------------|
| Gwyneth Ayers      | Cyngor Sir Caerfyrddin                               |
| Llinos Evans       | Cyngor Sir Caerfyrddin                               |
| Kate Harrop        | Cyngor Sir Caerfyrddin                               |
| Wendy Phillips     | Cyngor Sir Caerfyrddin                               |
| Rhian Phillips     | Cyngor Sir Caerfyrddin                               |
| Beth Cossins       | Iechyd Cyhoeddus Cymru                               |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Roxanne Treacy     | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu                             |
| Vikki Butler       | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu                             |

#### **1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

#### **Ymddiheuriadau**

| <b>Enw</b>                  | <b>Corff/mudiad</b>                                         |
|-----------------------------|-------------------------------------------------------------|
| Maria Battle                | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda                            |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Gorllewin Cymru |

|                  |                   |
|------------------|-------------------|
| Andrew Cornish   | Coleg Sir Gâr     |
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf  |
| Andrew Charles   | Llywodraeth Cymru |

Croesawodd y Cadeirydd, Barry Liles bawb i'r cyfarfod rhithiol. Cyflwynwyd tri aelod newydd, sef Mark Bowling, Clark Jones-John a'r Cynghorydd Darren Price.

Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof am Ros Jervis a fu farw ers y cyfarfod diwethaf.

## GWEITHREDU

|                                                                                         |                                  |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|
| Cysylltu â Gary Phillips ac Emlyn Dole i ddiolch iddynt am eu cyfraniadau i waith y BGC | Barry Liles a Thîm Cymorth y BGC |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|

## 2. Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu

Cafwyd cyflwyniad gan Vikki Butler a Roxanne Treacy ar y rhaglen Cyd-gynhyrchu a chysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ariennir y gwaith hwn gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Cefnogi Syniadau Gwych. Fe ddaeth y syniad o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, 2020 ac mae'n brosiect pedair blynedd. Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn cyfateb i amser ymgynghori gwerth £78k y flwyddyn yn gweithio ochr yn ochr â'r BGC. Darparwyd trosolwg o'r cynllun.

Awgrymwyd ambell faes ar gyfer ymgysylltu e.e. argyfwng natur a'r camddealltwriaeth o amgylch ardaloedd nad ydynt yn cael eu torri; ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml; tlodi ac argyfwng costau byw. Trafodwyd a oes ffordd o gyfuno ymgynghoriadau o bob rhan o'r BGC yn hytrach nag ymgysylltu'n unigol?

## GWEITHREDU

|                                                                                                                                 |                   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|
| Cylchredeg cyflwyniad Cyd-gynhyrchu                                                                                             | Tîm Cymorth y BGC |
| Gofynnwyd i bartneriaid y BGC i ddarparu manylion y swyddog priodol i drafod defnydd cynaliadwy o dir eu sefydliad yn y dyfodol | Pob un            |
| Trafod cyfleoedd i ymgysylltu partneriaid gyda'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu                                                       | Llinos Evans      |

## 3. Cyfleoedd Ariannu

Cafwyd cyflwyniad gan Rhian Phillips ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, sef piler canolog agenda 'Lefelu Fyny' Llywodraeth y DU. Bydd yn rhoi £2.6biliwn o gyllid newydd hyd at fis Mawrth 2025 ar draws y DU, gyda chymysgedd o refeniw a chyfalaf. Bydd pob ardal yn derbyn dyraniad i gefnogi ystod ehangach o ymyriadau, gan adeiladu balchder cymuned a gwella newidiadau bywyd. Mae ffocws y rhaglen ar wneud penderfyniadau lleol sy'n galluogi ardaloedd lleoli nodi lle y dylid targedu'r cyllid ar sail anghenion lleol.

Cyfanswm dyraniad Sir Gaerfyrddin bydd £38.6m, gyda thair Blaenoriaeth Buddsoddi:

- Cymuned a Lle
- Cefnogi Busnes Lleol
- Pobl a Sgiliau

Bydd y gwaith cyflenwi yn rhanbarthol, ac Abertawe yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth y De Orllewin. Bydd pob awdurdod lleol yn datblygu ei gynllun buddsoddi ei hun a fydd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol (RIP), a bydd rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn 1 Awst. Daeth ymgynghoriad allanol ar-lein gyda rhanddeiliaid lleol ac ymgynghoriad rhanbarthol i nodi blaenoriaethau buddsoddi i ben ar 15 Mehefin.

Mae Partneriaeth Adfywio Sir Gaerfyrddin hefyd wedi'i sefydlu a bydd ganddi rôl barhaus yn goruchwyllo darpariaeth leol. Bydd galwad ar gyfer ceisiadau yn cael ei wneud ar ôl i'r RIP gael ei gymeradwyo a bydd prosiectau'n cael eu hasesu ar sut maen nhw'n cyd-fynd â'r cynllun. Bydd cynaliadwyedd a'r agenda gwyrdd hefyd yn elfen allweddol. Bydd pwysau refeniw yn cael ei fabwysiadu gan yr awdurdod lleol gydag unrhyw fuddsoddiad cyfalaf. Mae'n ofynnol i ymgynghori â LIC ar y RIP ac fe'i gwahoddwyd i gyfarfod diweddar Partneriaeth Adfywio Sir Gâr. Er bod y dyraniadau'n lleol, gall fod rhai prosiectau a fyddai'n cael eu darparu'n well yn rhanbarthol.

Mae canfyddiadau'r Asesiad Llesiant wedi cael eu bwydo i ddatblygiad y Cynllun Buddsoddi Lleol.

#### 4. Cofnodion a Materion yn codi

08 Mawrth 2022

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

##### Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

##### Economi Sylfaenol

Mae gwaith yn parhau gyda Miller wedi ei penodi'n ymgynghorwyr arweiniol. Newidiodd y briff yn dilyn cyhoeddiad Prydau Ysgol am Ddim, gyda'r prosiect bellach yn edrych ar ffyrdd o osod cynnyrch lleol ar fwydlenni lleol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i chydabod gyda statws Lle Bwyd Cynaliadwy ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| GWEITHREDU                                                                               |               |
|------------------------------------------------------------------------------------------|---------------|
| Diweddarau y BGC ar ganfyddiadau'r Economi Sylfaenol unwaith y bydd ar gael yn yr Hydref | Gwyneth Ayers |
| Cysylltu â phartneriaid yn ôl y galw ar y Lle Bwyd Cynaliadwy yn yr wythnosau nesaf      | Gwyneth Ayers |

#### 5. Busnes cyfarfod gorfodol

Yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol diweddar, mae'n ofynnol i'r BGC adolygu'r Cylch Gorchwyl. Teimla Barry Liles ei bod hi'n amserol i sefyll i lawr fel y Cadeirydd ond y bydd yn parhau i fod yn aelod o'r BGC. Estynnodd ei ddiolch i'r Tîm Cefnogi am eu gwaith dros y blynyddoedd. Diolchodd Gwyneth Ayers i Barry Liles am ei waith a'i gyfraniad rhagorol i'r BGC a'i ragflaenydd, sef y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

##### Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Ategodd Noelwyn Daniel ei ddiolch i Barry Liles gan enwebu'r Cynghorydd Darren Price yn Gadeirydd, ac Andrew Cornish yn Is-gadeirydd. Cefnogwyd hyn gan Huwel Manley a Mydrian Harries. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill. Derbyniodd Darren Price rôl y Cadeirydd a bydd y tîm yn cysylltu ag Andrew Cornish parthed enwebiad yr Is-Gadeirydd.

##### Penderfynu ble a pha mor aml mae'r BGC yn cwrdd

Trafodwyd opsiynau cyfarfod amrywiol megis newid wyneb yn wyneb ac ar-lein, hybrid gyda'r ddau opsiwn ar gael, ac amllder y cyfarfodydd. Cytunwyd i barhau â chyfarfodydd deufisol a'u cynnal ar ffurf hybrid.

##### Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Rhoddodd Gwyneth Ayers drosolwg o'r Cylch Gorchwyl a chytunwyd ar y gwelliannau canlynol:

- Rhestr sefydliadau yn hytrach nag enwau/teitlau unigolion

- Ail-sefydlu'r Cyfarfod Blynnyddol
- Agenda i gynnwys datganiadau o ddiddordeb a chwestiynau gan y cyhoedd
- Dileu amserlen Cynghorau Tref a Chymuned

| GWEITHREDU                                                                  |               |
|-----------------------------------------------------------------------------|---------------|
| Aelodau i gadarnhau a oes ganddynt gyfleusterau i gynnal cyfarfodydd hybrid | Pob un        |
| Cylch Gorchwyl i'w ddiweddarau fel y trafodwyd                              | Gwyneth Ayers |

## 6. Adroddiad Blynnyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2021/22

Cafwyd gorolwg o'r Adroddiad Blynnyddol gyda'r meysydd allweddol canlynol yn cael eu hamlygu:

- Logos
- Strwythur gweithredu ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Lles
- Meysydd o gynnydd lleol a rhanbarthol
- Ardaloedd datblygu

| GWEITHREDU                                                                                                                                                                                           |                   |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|
| Trefnu digwyddiad blynnyddol i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i lywio'r adroddiad blynnyddol. Trafod cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Llesiant ac ystyried gwaith i'r dyfodol | Tîm Cymorth y BGC |

## 7. Amcanion Llesiant Drafft

Estynnwyd diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr Amcanion Llesiant Drafft. Cafwyd amlinelliad ar y prif feysydd ar gyfer pob amcan. Pan fyddant yn cael eu cytuno, bydd y rhain yn cael eu rhannu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cynnal ymgynghoriad statudol all gymryd hyd at 14 wythnos i'w gwblhau.

Cytunwyd ar yr amcanion gan bob aelod.

## 8. Datblygu Cynllun Llesiant

Y cam nesaf yw datblygu'r Cynllun Llesiant a fydd wedi'i seilio ar yr amcanion. Amlinellwyd y broses ar gyfer datblygu'r Cynllun Llesiant.

| GWEITHREDU                                                                                                    |                   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|
| Hysbysu am unrhyw ymgysylltu â'r cyhoedd arfaethedig y gellid eu defnyddio i ymgysylltu am y Cynllun Llesiant | Pob un            |
| Bwrw ymlaen â thrafodaethau ar y camau nesaf ar gyfer y Cynllun Llesiant gyda phartneriaid                    | Tîm Cymorth y BGC |

## 9. Rhaglen Trawsnewid Integreiddio Blynnyddoedd Cynnar Ebrill 2022

Mae'n ofyniad i Gadeirydd y BGC gymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer Trawsnewid Integreiddio Blynnyddoedd Cynnar. Darperir adroddiadau chwe misol i'r BGC, er gwybodaeth.

## 10. Unrhyw fusnes arall

Bwletin Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Cynigiwyd i ddosbarthu'r Bwletinau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn y cyfarfod ac yn rheolaidd ar sail barhaus sy'n briodol.

| GWEITHREDU                                                                                                                           |                   |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|
| Cylchredeg bwletin byrddau gwasanaethau cyhoeddus presennol Llywodraeth Cymru/Swyddfa CCD a rhifynnau yn y dyfodol                   | Tîm Cymorth y BGC |
| Ystyried ac ymateb erbyn 15 Gorffennaf i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Famolaeth a'r Blynnyddoedd Cynnar drafft fel y bo'n briodol | Pob un            |